# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 14eg Hydref 2019

Presennol: Henry Hughes, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies.
Ymddiheuriadau: Humphrey Williams, Seimon Glyn

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
   a. Archwyliad Allanol **-** Gweler adroddiad ar y dalen nesaf.

   b. Lon Rhos y Llan, Tudweiliog. Dywedodd y Clerc ei bod wedi cysylltu a'r Adran Priffyrdd ac wedi gofyn iddyn gysylltu'n uniongyrchod a Ceri Meredydd. Deallwyd fod yr adran wedi cysylltu a Ceri.

   c. Cwyn Tractorau yn gor yrry a gwartheg lon Treferwin. Dywedodd y Clerc y bydd meserudd traffic yn cael ei osod ym mhentref Llaniestyn yn y dyfodol agos.
Cafwyd ar ddeall hefyd gan yr adran mai dyletswydd y fferm yw gofyn am arwydd ffordd yn rhybuddio y gallai gwartheg fod ar y lon, felly penderfynnwyd gofyn i fferm Nyffryn gysylltu a'r Cyngor i geisio cael yr arwydd.

   ch. Drych ym mhen lon TyBwlcyn. Cysylltodd y Clerc a'r Adran Priffyrdd, bydd sywddog yn ymweld a'r safle yn fuan i asesu os oes angen drych.

   d. Mynwent Tudweiliog. Cysylltodd y Cerc a Susan Griffith, a cafwyd ar ddeall mai pryder pennaf ar y funud yw prinder arian i gynnal yr

hen fynwent. Gofynnodd Susan i'r Cyngor Cymuned ystyried codi'r cyfraniad blynyddol, gan awgrymu efallai y byddai angen codi'r Prisept. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth rannu'r Prisept ar ddiwedd y cyfarfod. Cafwyd ar ddeall ganddi hefyd mai'r Cyngor Cymdeithas yw ymddiriedolwyr y Fynwent newydd, ac orherwydd dyletswydd y Cyngor Cymuned fydd cael tir newydd pan fydd y fynwent presennol wedi llenwi. Bydd hyn yn cael ei drafod eto mis nesaf.

4. **Gohebiaethau:**

a. Derbynnwyd anfoneb gan gwmni Zurich am £390.63 – pasiwyd i'w dalu

b. Derbynnwyd anfoneb gan JA Pozzi am £612.00 – pasiwyd i'w dalu

c. Derbynnwyd ebost gan G Owen Porthsgaden yn dymuno rhoi ei sedd fel Cynghorwr i fyny o'r 1af Hydref. Cysylltodd y Clerc a Raymond Harvey Swyddog Cofrestru Cyngor Gwynedd. Rhoddwyd rhybudd i fyny yn y Post ac ar y Wefan.

ch. Derbynnwyd llythyr gan Mabon ap Gwynfor Plaid Cymru yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gefnogi'r alwad i gael Canolfan Ddeiagnosis Canser yma yng Ngwynedd. Penderfynnwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu i ddatgan fod y Cyngor yn cefnogi.

d. Derbynnwyd rhybudd ffordd yn datgan y bydd lon ger Gorffwysfa Garnfadryn ar gau o Hydref 16eg am 3 diwrnod.

dd. Derbynnwyd llythyr gan Grwp Cynefin yn ein gwybyddu fod eiddo gwag ar gael yn Nhydweiliog. Bydd y Clerc yn rhoi y poster i fyny yn y post, yn ogystal ac awgrymu iddynt roi hysbyseb yn y papur bro Llanw Llyn.

e. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Cynghorwyr i'r ffaith fod cais Congl Cae Llangwnnadl i droi adeilad allanol yn unedau gwyliau wedi ei wrthod ar apel. Y rheswm dros y gwrthodiad oedd fod nifer datblygiadau o'r fath yn uwch na'r trothwy o 10% a nodir yn y CCA.

f. Cais cynllunio C19/0938/46/LL Rhos, Garnfadryn – Dim sylwadau

g. Cais cynllunio C19/0802/46/LL Llys Hyfryd, Llaniestyn – Dim sylwadau.

5. **Unrhyw fater arall**

a/ Adroddwyd fod pryder am gyflwr lon rhwng Gorffwysfa a Tanffordd Garnfadryn a hefyd rhwng Cae Garw a Ty Newydd Llaniestyn. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd.

b. Adroddodd Medwyn Jones fod helynt mawr wedi bod ynglyn a'r arwyddion ym Mhorth Colmon. Cafwyd ar ddeall erbyn hyn mai Ty Hen sydd berchen ar y tir ple gosodwyd yr arwyddio, ac felly fod dim gwrthwynebiad i'w rhoi yn ol. Bydd y Clerc yn cysylltu a Barry Davies o'r Adran Amgylchedd i ofyn os bydd modd symud ymlaen i ail osod yr arwyddion.

6. Cymorth Ariannol (cyflwynwyd mantolen y Cyngor i'r Cynghorwyr a pasiwyd i gyfrannu fel a ganlyn):
(Pasiwyd hefyd y dylai'r Cyngor Cymdeithas dderbyn mantolen gan bod mudiad cyn cyfranu, ac os i'w sefyllfa ariannol yn dangos bod dros £3000.00 yn y banc yna fydd dim cyfraniad yn cael ei wneud i'r mudiad hwnnw) –

| | |
|---|---|
| Mynwent Tudweiliog | - £100.00 |
| Mynwent Dinas | - £100.00 |
| Eglwysi Bro Madryn | |
| St Cwyfan | - £100.00 |
| St. Marys | - £100.00 |
| St Iestyn | - £100.00 |
| Canolfan Tudweiliog | - £400.00 |
| Canolfan Llaniestyn | - £400.00 |
| Y Dinasyddion | -£120.00 |
| Clwb y Berthan | - £120.00 |
| Urdd Tudwiliog | - £120.00 |
| Nyrsus Marie Curie | - £50.00 |

CYNHELIR y CTFARFOD NESAF AR 11ed Tachwedd 2019
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh